

Ffeithlen 12

(Medi 2024)

Weithiau, pan fyddwch yn gwella ar ôl salwch neu lawdriniaeth, mae angen amser arnoch i adennill eich cryfder, hyder, sgiliau ac annibyniaeth i'r graddau mwyaf posibl cyn dychwelyd adref.

Rydym yn deall hyn, ac o ganlyniad wedi datblygu gwasanaethau yn yr awdurdod lleol sy'n darparu ailalluogi preswyl yn y tymor byr.

Beth mae Ailalluogi Preswyl yn y tymor byr yn ei gynnig?

Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi cyfle i chi wella a chryfhau'n raddol mewn llety â chymorth ar ôl llawdriniaeth neu salwch, a fydd yn eich galluogi i gynyddu eich hyder, eich annibyniaeth, a gwella eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd cyn dychwelyd adref.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'r llety ar gael i bobl sydd dros 65 oed, sydd â nodau rhesymol gyraeddadwy, ac sy'n gallu cyfranogi a chydweithredu â therapïau, ac sydd:

- Wedi'u hasesu fel rhai sy'n feddygol ffit i gael eu rhyddhau o'r ysbyty, dim angen triniaeth feddygol yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac angen rhywfaint o ailalluogi preswyl tymor byr
- Yn byw gartref, nid oes angen mynd i'r ysbyty, ond angen rhywfaint o ailalluogi preswyl tymor byr yn dilyn cyfnod o salwch neu anaf.
- Cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda Phractis Meddyg Teulu yn Sir Gaerfyrddin

Beth yw'r manteision i mi?

Nid oes neb am aros yn yr ysbyty'n hirach nag sydd angen, ac ailalluogi preswyl yw'r cam nesaf cyn mynd adref. Ymgynghorir â chi a bydd yn rhaid cael eich caniatâd cyn ichi symud i leoliad ailalluogi preswyl. Gofynnir i chi lofnodi cytundeb ar gyfer hyn.



Pa mor hir byddwch yn aros yno?

Mae'r amser y mae pobl yn ei gymryd i wella yn amrywio – bydd rhai'n gwella'n gyflym iawn tra bydd eraill yn cymryd ychydig yn hirach. Fodd bynnag, dim ond am hyd at chwe wythnos y gall pobl aros yno a bydd yr asesiad therapiwtig yn dangos pa mor fuan y gallwch ddychwelyd adref. Cyn ichi gael eich derbyn i'r uned ailalluogi preswyl, bydd y therapyddion wedi trafod eich nodau personol ar gyfer yr arhosiad â chi. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu bob wythnos i sicrhau eich bod yn manteisio cymaint â phosibl ar y gwasanaeth a'ch bod yn cyflawni eich nodau yn y ffordd orau cyn ichi adael.

Ble mae'r lleoliadau Ailalluogi Preswyl?

Mae unedau ar wahân yn cynnig y gwasanaeth hwn yng nghartref gofal yr awdurdod lleol sef Tŷ Pili Pala yn Llys y Bryn, Llanelli

Sut beth fydd y lleoliad Ailalluogi Preswyl?

Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau en-suite; mae lolfa gymunedol a chegin lle gallwch wneud diodydd poeth a byrbrydau unrhyw bryd.

Pa wasanaethau y gallaf eu disgwyl?

Bydd y staff yn eich cefnogi a'ch annog i gynnal a gwella eich annibyniaeth. Yn dibynnu ar eich anghenion asesedig, mae cymorth ar gael gan ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a dietegwyr ond bydd y prif gymorth o ddydd i ddydd yn cael ei roi gan y gweithwyr cymorth gofal yn Nhŷ Pili Pala, mae eich cyfranogiad gweithredol yn hanfodol i'ch adferiad.

Faint byddaf yn ei dalu am y llety?

Nid oes tâl am y gwasanaeth Ailalluogi Preswyl, fodd bynnag bydd eich angen am y gwasanaeth yn cael ei adolygu bob wythnos. Fel y nodwyd uchod, hyd at chwe wythnos yw cyfnod Ailalluogi Preswyl am ddim. Fodd bynnag, os cewch eich asesu ar unrhyw adeg fel nad oes angen Ailalluogi Preswyl arnoch mwyach ond bod angen gofal hirdymor arnoch, efallai y codir tâl arnoch o'r pwynt hwnnw. Os bydd eich arhosiad yn mynd dros chwe wythnos yna efallai y codir tâl arnoch, fodd bynnag, os yw'n ymddangos yn debygol y byddwn yn ymgynghori â chi

A oes unrhyw gostau eraill?

Os byddwch yn defnyddio unrhyw rai o'r gwasanaethau a ddarperir megis trin gwallt neu dderbyn papur newydd dyddiol, bydd angen ichi dalu'r costau cyfredol.

Sut byddaf yn cyrraedd yno ac yn gadael?

Os nad oes modd i deulu neu ffrindiau fynd â chi, gellir trefnu cludiant ar eich cyfer.

A fydd fy meddyg teulu yn galw i'm gweld?

Bydd meddyg teulu/gweithiwr iechyd proffesiynol o'r Tîm Cartref yn Gyntaf yn gofalu am eich iechyd a'ch anghenion meddygol dros dro drwy gydol eich arhosiad yn Nhŷ Pili Pala, gallai hyn gynnwys; Cefnogaeth iechyd a lles cyffredinol, rhagnodi unrhyw feddyginiaeth sydd ei hangen, asesiadau meddygol ac ati. Byddwch yn dychwelyd i'ch Practis Meddyg Teulu Cofrestredig pan fyddwch yn cael eich rhyddhau. Y Tîm Ymateb Acíwt yw'r tîm nyrsio sy'n ymdrin ag agweddau nyrsio'r uned. Ar ôl i chi gael eich rhyddhau, byddwch yn dychwelyd at eich tîm nyrsio cymunedol lleol ar gyfer unrhyw anghenion nyrsio parhaus.

Beth am fy meddyginiaeth?

Byddwch yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty gyda meddyginiaeth, bydd staff Tŷ Pili Pala yn eich asesu ac yn eich cefnogi i hunan-feddyginiaethu fel rhan o'n Ailalluogi ac yn unol â pholisi meddyginiaeth gofal preswyl yr awdurdod lleol. Os ydych yn dod i'r uned o'ch cartref dewch â'ch meddyginiaeth ac unrhyw bresgripsiynau gyda chi. Bydd staff Tŷ Pili Pala yn trefnu i unrhyw gyflenwadau pellach gael eu danfon tra byddwch yno ac yn sicrhau bod gennych ddigon am o leiaf 7 diwrnod ar ôl eich rhyddhau.

A fydd fy nheulu a'm ffrindiau yn gallu dod i'm gweld?

Mae croeso i ymwelwyr alw unrhyw bryd. Fodd bynnag, mae angen ichi ystyried y byddwch o bosibl yn cymryd rhan mewn sesiynau ailalluogi. Gofynnwn hefyd i ymwelwyr osgoi amser bwyd er cysur preswylwyr eraill.

Os hoffech gael y daflen ffeithiau hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu ddanfon e-bost i ofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:
www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol